

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Andrews Denture Clinic, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Andrews Denture Clinic, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 9 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Andrews Denture Clinic yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a adolygwyd gennym o holiaduron cleifion y clinig yn gadarnhaol ac roedd 16 o gleifion o'r farn bod y gwasanaeth a gawsant yn rhagorol.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i ddarpariaeth y gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth. Roedd y newidiadau hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mor ddiogel â phosibl, ac roedd gweithdrefnau ar waith i leihau lledaeniad COVID-19.

Roedd gwybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn glir yn y man aros ac roedd gwasanaethau'r cleifion yn cael eu darparu'n brydlon.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cofnodi'r cwestiynau sgrinio COVID-19 a ofynnir i'r cleifion cyn iddynt gyrraedd y clinig ar gofnodion cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Daethom i'r casgliad bod y gwasanaethau a ddarperir gan y clinig dannedd gosod yn cael eu darparu mewn modd gofalgarn a phroffesiynol. Gwelwyd tystiolaeth o hyn gan nad oedd y clinig wedi cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu gwynion ac roedd holiaduron y clinig yn cadarnhau bod yr holl gleifion yn dweud bod y staff yn gwrtais.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig dannedd gosod yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd yn ymddangos bod y clinig wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac ynddo gyfarpar da i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob man yn lân ac yn rhydd o unrhyw beryglon gweladwy.

Gwelsom fod y trefniadau diogelwch tân yn briodol i amddiffyn y staff a'r ymwelwyr a bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon dda.

Gwnaethom argymhellion (gweler isod) a fydd yn helpu i wella'r gwasanaethau y mae'r clinig yn eu darparu ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r gwasanaeth gyflwyno rhaglen o archwiliadau a fydd yn helpu i nodi unrhyw agweddau ar y gwasanaeth y gellid eu gwella
- Mae angen cwblhau adroddiad rheoliad 23, gan gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliad hwn a'i gyflwyno i AGIC
- Oherwydd y sylweddau a ddefnyddir yn y clinig dannedd gosod, mae angen ffeil Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) a'i chadw yn y clinig
- Mae angen i'r gwasanaeth wirio bod y system awyru, yn benodol yr all-lif o'r ystafell driniaeth i'r dderbynfa/man aros yn cydymffurfio â safonau proffesiynol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y clinig drefniadau diogelwch tân priodol ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynnal adeilad diogel ar gyfer y staff a'r ymwelwyr
- Roedd yr offer a ddefnyddir yn y clinig dannedd gosod yn ymddangos mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

O drafodaethau â'r staff, daethom i'r casgliad eu bod yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Gwelsom nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn berthnasol i'r gwasanaethau yr oedd y clinig dannedd gosod yn eu darparu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u storio'n ganolog er mwyn iddynt fod yn hawdd eu cyrchu.

Roedd gan y staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi priodol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol. Gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol ac mae tystysgrifau'n cael eu cadw i ddangos hyn.

Rhoddir manylion y pryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a chatau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y clinig dannedd gosod i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Yn anffodus, ni dderbyniwyd unrhyw holiaduron AGIC. Fodd bynnag, rhoddodd y clinig 16 o'u holiaduron profiad cleifion eu hunain i ni oherwydd eu bod yn teimlo bod y rhain yn fwy perthnasol i'w grŵp cleifion. Dangosodd ein hadolygiad o'u holiaduron fod eu cleifion i gyd o'r farn bod y gwasanaeth a gawsant yn rhagorol.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y clinig dannedd gosod o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a'r cleifion ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r clinig.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, mae'r drws yn aros ynghlo a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a allai ymweld â'r clinig. Mae eitemau diangen wedi'u symud o'r ystafell driniaeth cymaint â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod cwestiynau sgrinio COVID-19 yn cael eu gofyn cyn i glaf gyrraedd y clinig, ond nad ydynt yn cael eu cofnodi. Gwnaethom argymhell bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gofnod y claf.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y clinig wrthym fod y technegwyr deintyddol clinigol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu dannedd gosod yn lân a'u ceg yn iach.

Roedd enw'r clinig dannedd gosod yn amlwg o'r tu allan. Roedd oriau agor a rhif ffôn mewn argyfwng hefyd wedi'u harddangos. Roedd enwau a chymwysterau'r technegwyr deintyddol clinigol wedi'u harddangos yn y man aros.

Gwelsom arwyddion dim ysmegu wedi'u harddangos yn y clinig dannedd gosod, a oedd yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y clinig dannedd gosod mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn Gymraeg, ond dywedwyd wrthym nad oedd y clinig dannedd gosod erioed wedi cael unrhyw geisiadau gan y cleifion i gael gwybodaeth yn Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael ymgynghoriad un-i-un yn breifat a bod pob sgwrs breifat â'r cleifion yn cael ei chynnal yn yr ystafell driniaeth i ffwrdd oddi wrth y dderbynfa / man aros.

Gwelsom fod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y man aros, felly yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom restr brisiau ar gyfer yr holl gostau triniaeth yn cael ei harddangos yn y man aros. Roedd y clinig dannedd gosod yn cynnig amrywiaeth o wahanol fathau o ddannedd gosod i helpu i ddiwallu anghenion eu cleifion.

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ar ddesg y dderbynfa i'r cleifion fynd â nhw. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn y man aros ac roedd copi hefyd o ddatganiad o ddiben y clinig ar gael ar ddesg y dderbynfa, a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd enwau a chymwysterau'r technegwyr deintyddol clinigol hefyd wedi'u harddangos yn y man aros. Gallai'r cleifion weld yr holl wybodaeth hon yn hawdd.

Gwelwyd posteri yn atgoffa cleifion i wisgo masgiau wyneb.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn ymdrechu i ddarparu gofal a thriniaeth dannedd gosod mewn modd amserol. Gellir gwneud apwyntiadau dros y ffôn neu drwy e-bost.

Dywedodd y staff wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Dywedwyd wrthym fod y clinig dannedd gosod yn darparu gwasanaeth brys i atgyweirio dannedd gosod, gan gynnwys y tu allan i oriau, penwythnosau a gwyliau

banc, lle bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod urddas cleifion a gofal amserol yn cael eu darparu gan nad yw cleifion yn cael eu gadael heb eu dannedd gosod am gyfnodau hir o amser.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom rai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn dal i fod ar waith, a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw oedd yn dod i mewn i'r practis. Roedd y drws i'r clinig wedi'i gloi, ac roedd y staff yn ateb ac yn cyfeirio'r cleifion i mewn i'r ystafell driniaeth er mwyn helpu i leihau faint o amser y mae claf yn ei dreulio ar y safle.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

O'r pum cofnod claf a adolygwyd gennym, gwelsom fod cynlluniau triniaeth yn cael eu cwblhau, a phob un ohonynt yn canolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwelsom fod y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y clinig dannedd gosod yn unol â'u datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaeth i bob claf waeth beth fo'i nodwedd warchodedig.

Mae'r clinig dannedd gosod yn gweithredu eu gwasanaethau ar y llawr daear. Mae ramp ar gael i unrhyw un sy'n methu dringo'r gris i mewn i'r adeilad. Mae pob man cleifion yn yr adeilad yn hygyrch i unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd.

Gwrandao a dysgu o adborth

Dywedwyd wrthym fod y clinig dannedd gosod yn cael adborth drwy anfon holiadur at y cleifion rhwng chwe ac wyth wythnos ar ôl eu triniaeth. Dywedodd y staff eu bod yn darparu amlen cyfeiriad â stamp i'r cleifion ddychwelyd eu holiaduron a'u bod yn adolygu'r ymatebion er mwyn dysgu o'r adborth a gyflwynwyd.

Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw ffordd ffurfiol o gasglu'r adborth hwn. Gwnaethom argymhell bod adborth yn cael ei gofnodi'n ffurfiol fel y gellir ei adlewyrchu'n briodol lle bo'n berthnasol. Gwelsom o holiaduron y clinig dannedd gosod a gawsom fod ymatebion cadarnhaol gan gleifion.

Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos ar gyfer y cleifion yn y man aros. Dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth erioed wedi derbyn unrhyw gwynion, ond

roedd ganddo brosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu trin yn briodol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r clinig.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan a'r tu mewn. Roedd pob man yn y clinig i'w weld yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd arwyddion clir i bob ystafell. Roedd yr ystafell driniaeth a'r labordy mewn cyflwr da. Roedd gan y ddwy ystafell y cyfarpar angenrheidiol i gynnal y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y clinig.

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn ogystal ag asesiad risg iechyd a diogelwch i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben.

Roedd trefniadau priodol ar waith i amddiffyn y staff a phobl sy'n ymweld â'r clinig pe bai tân. Roedd y ddau aelod o staff wedi cael hyfforddiant tân cyfredol. Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal a gwnaed gwaith cynnal a chadw i'r holl ddiffoddwyr tân yn y clinig ym mis Ionawr 2022. Roedd arwyddion allanfeydd tân wedi'u harddangos yn glir a defnyddiwyd llyfr cofnod tân i gofnodi ymarferion tân.

Gwelsom boster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos ac roedd y ddau dechnegydd deintyddol clinigol wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Roedd ystafell staff yn darparu lle i'r staff newid. Roedd toiled ar gael i'r staff a'r cyhoedd.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y clinig bolisi parhad busnes ar waith.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod polisi rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd contract hefyd ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel.

Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n briodol, mewn cwpwrdd diogel dan glo.

Gwnaethom nodi bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Fodd bynnag, nid oedd ffeil COSHH ar gael. Gwnaethom argymhell bod ffeil COSHH yn cael ei gweithredu ac ynddi'r holl daflenni data diogelwch angenrheidiol a'i chadw yn y clinig.

Nid yw'r clinig dannedd gosod yn cynnal unrhyw weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau, ond gwnaethom nodi bod all-lif gan wyntyll awyru trydan o'r ystafell driniaeth i'r dderbynfa/man aros. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cydymffurfio, gwnaethom argymhell bod y clinig yn gwirio gofynion y system hon i sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn bodloni unrhyw safonau a gyhoeddir gan y Gymdeithas Labordai Deintyddol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gweithdrefn weithredu safonol y bwrdd iechyd lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y clinig bolisi a gweithdrefn rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar-lein ac yn aros i gael dyddiad gan y darparwr i gwblhau eu hyfforddiant CPR wyneb yn wyneb.

Gwelsom fod offer dadebru ar gael yn y clinig. Gan mai dim ond i gleifion dros 18 oed y mae'r clinig yn darparu triniaeth, dim ond padiau diffibriliwr oedolion oedd ganddynt ar gyfer y cyfarpar dadebru. Gwelsom fod y cyfarpar yn cael ei storio'n briodol.

Roedd gan y clinig bolisi cynllun cerdyn melyn Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar waith. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i adrodd am unrhyw adweithiau niweidiol a brofwyd gan y cleifion i'r MHRA.

Ni chaiff unrhyw gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys na meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig eu storio yn y clinig.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Roedd gan y clinig bolisi diogelu oedolion a oedd yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol.

Roedd y ddau aelod o staff yn arweinwyr diogelu dynodedig ac roedd y ddau wedi cwblhau hyfforddiant lefel 2.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Nid yw'r clinig yn defnyddio unrhyw offer pelydr-X.

Gwelsom fod y cyfarpar a ddefnyddir yn y clinig mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer y gwasanaethau y mae'r clinig yn eu darparu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r offer yn ddiogel. Mae'r clinig yn defnyddio eitemau untro a lle defnyddir dyfeisiau y gellir eu hailddefnyddio, gwelsom eu bod yn cael eu diheintio'n briodol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y clinig drefniadau ar waith ar gyfer derbyn a thrin cleifion. Mae hyn oherwydd bod manylion wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio arweiniad proffesiynol, a lle bo'n berthnasol, yn defnyddio hwn i ddiweddarau eu polisiau eu hunain.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y clinig bolisi sicrhau ansawdd ar waith, ond nid oedd unrhyw archwiliadau'n cael eu cwblhau. Gwnaethom argymhell bod y clinig yn cyflwyno rhaglen o archwiliadau fel y gallant ddangos sut y maent yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion.

Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a pharatoi adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Felly, rydym yn argymhell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu gofynion Rheoliad 23 ac yn cynnal yr ymweliad cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchir i AGIC.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y clinig bolisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd ar waith. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu pump set o gofnodion cleifion a daethom i'r casgliad eu bod yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y nodiadau yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan.

O'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod ganddynt ddigon o wybodaeth am hanes meddygol y cleifion, y rhesymau dros fynychu, gwybodaeth am driniaeth, a chydysniad.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r clinig dannedd gosod yn eiddo i'r technegwyr deintyddol clinigol, a hwy, ill dau, yw'r rheolwyr cofrestredig a'r unigolion cyfrifol.

Mae'r ddau dechnegydd deintyddol clinigol yn rheoli gweinyddiad y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae ganddynt linellau cyfrifoldeb clir.

Gwelsom fod ystod eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom fod y ddau dechnegydd deintyddol clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol.

Roedd y ddau aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i adrodd am rai digwyddiadau i AGIC. Roedd polisi wedi'i sefydlu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau hyn.

Gwelsom fod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'u bod ar gael i'r cleifion.

Efallai y bydd y clinig am ystyried defnyddio adnoddau ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru i helpu o ran gweithgareddau gwella ac archwilio.

Gweithlu

Gwelsom fod gan y clinig nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn cefnogi recriwtio staff yn ddiogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisi recriwtio, polisi bwllo ac aflonyddu a gweithdrefn ddisgyblu. Mae'r ddau dechnegydd deintyddol clinigol yn hunangyflogedig, felly nid oedd unrhyw ffeiliau staff i'w hadolygu. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod brechiadau hepatitis B ar waith a bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil.

Gwelsom fod y ddau aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd gan y clinig bolisi chwythu'r chwiban a oedd yn cynnwys cyfeiriadau clir ar gyfer lleisio pryderon.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw gyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal oherwydd mai dim ond dau aelod o staff sydd yn y clinig. Maent yn cyfathrebu'n ddyddiol ac mae'r ddau yn gwybod beth sy'n ofynnol ganddynt i sicrhau bod y busnes yn gweithredu'n briodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

[illegible]

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Andrews Denture Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Andrews Denture Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid cofnodi'r cwestiynau sgrinio COVID-19 a ofynnir i'r cleifion cyn iddynt gyrraedd y clinig ar gofnodion cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)	Mae cwestiynau sgrinio COVID-19 a ofynnir i'r claf cyn cyrraedd y clinig bellach yn cael eu cadw gyda chofnodion cleifion.	Rheolwr Cofrestredig, Simon Andrews Cwblhawyd erbyn 23/5/22
Mae angen i'r gwasanaeth gyflwyno rhaglen o archwiliadau a fydd yn helpu i nodi unrhyw agweddau ar y gwasanaeth y gellid eu gwella.	Rheoliad 16 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd archwiliadau yn cael eu cyflwyno. Bydd yr archwiliad cyntaf yn ymwneud â chadw cofnodion er mwyn nodi unrhyw agweddau y gellid eu gwella ac yna cynhelir archwiliad rheoli heintiau.	Rheolwr Cofrestredig, Simon Andrews Dros y 3 i 6 mis nesaf

Oherwydd y sylweddau a ddefnyddir yn y clinig dannedd gosod, mae angen ffeil Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) a'i chadw yn y clinig.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)	Mae ffeil COSHH bellach ar waith ac yn cael ei chadw yn y clinig.	Rheolwr Cofrestredig, Simon Andrews	Cwblhawyd erbyn 23/5/22
Mae angen i'r gwasanaeth wirio bod y system awyru, yn benodol yr all-lif o'r ystafell driniaeth i'r dderbynfa/man aros yn cydymffurfio â safonau proffesiynol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (8)	Mae llif o'r system awyru o'r ystafell driniaeth i'r dderbynfa/man aros wedi'i dynnu a gosodwyd system awyru yn ei lle yn y nenfwd sy'n llifo i'r awyr agored, y tu allan i'r safle.	Rheolwr Cofrestredig, Simon Andrews	Cwblhawyd erbyn 27/5/22
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau adroddiad Rheoliad 23 a sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid anfon copi i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 23 (1); (2)(a)(b) ac (c); (3); (4)(a)(b) ac (c); (5)(a) a (b)(i)(ii); (6)	Adroddiad Rheoliad 23 wedi'i gwblhau a'i anfon at AGIC drwy gyfrwng Objective Connect.	Rheolwr Cofrestredig, Simon Andrews	Cwblhawyd erbyn 27/5/22

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Simon Andrews

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 27/5/2022